# Ffansi Ffarmwr

**Ffurf:**
Cylch o unrhyw nifer o gyplau

**Cerddoriaeth:**
Unrhyw jig 32 (e.e Nant-y-Glyn)



Cam 1

Y bechgyn â'u cefnau i'r canol yn wynebu eu partneriaid.

1. Tro llaw dde gyda'r partner. Tro llaw chwith gyda'r partner



Cam 2

2. Tro dwy law gyda'r partner. Cefn wrth gefn gyda'r partner.

3. Troelli gyda'r partner



Cam 4

4. Promenâd gyda'r partner yn groes i'r cloc. Y bechgyn i symud ymlaen at y ferch o'u blaen ar 4 curiad olaf y gerddoriaeth

Dewch i Ddawnsio Gwerin

tinint

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CYMRAEG Byd Addysg In Education

# Ffansi Ffarmwr

## Tro llaw dde a chwith

SGIL 1





Partneriaid yn wynebu ei gilydd hyd dwy fraich, yn cydio yn llaw dde ei gilydd ac yn cerdded neu sgipio gyda'r cloc mewn cylch yn ôl i'w lleodd gwreiddiol. Cymerir 8 cyriad i wneud hyn. Ailadrodd gyda'r llaw chwith a symud yn groes i'r cloc.



tinint
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
CYMRAEG Byd Addysg In Education

# Ffansi Ffarmwr

## Tro dwy law

SGIL 2





**Heb ollwng y llaw chwith o'r symudiad diwethaf, cydio yn llaw dde'r partner a throi dwy law gyda'r cloc am 8 curiad yn ôl i'w lle.**



tinint
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
Cymraeg Byd Addysg In Education

# Ffansi Ffarmwr

## Cefn wrth gefn

SGIL 3





Partneriad yn wynebu ei gilydd. Mynd heibio'i gilydd gan basio'r ysgwydd dde. O gylch ei gilydd gefngefn a dychwelyd i'w lleoedd gwreiddiol wysg eu cefnau. Dylid wynebu'r un ffordd drwy gydol y symudiad.


tinint
Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
Cymraeg Byd Addysg In Education

# Ffansi Ffarmwr

## Troelli

SGIL 4





Gwynebu partner a dal dwylo de i dde a chwith i chwith. Sgipio mewn cylch gyda'ch partner gyda'r cloc gan symud o safle blaen y set i gefn y set.

# Ffansi Ffarmwr

Promenâd

SGIL 5





Partneriaid yn mynd am dro gyda'i gilydd mewn cylch yn groes i'r cloc – y ferch ar ochr dde'r bachgen. Gellid dal y partner mewn un o ddwy ffordd. Yn gyntaf, sefyll ochr yn ochr gan wynebu'r cyfeiriad y maent am deithio gyda llaw dde'r bachgen yn llaw dde'r ferch, a llaw chwith y bachgen yn llaw chwith y ferch. Y cysylltiad chwith uchaf. Yn ail, sefyll ochr yn ochr gan wynebu'r cyfeiriad y maent am deithio gyda braich dde'r bachgen wedi'i hestyn dros ysgwydd y ferch i ddal ei llaw dde, a llaw chwith y bachgen yn cydio yn ei llaw chwith hithau. Cedwir y breichiau chwith i fyny ac ni ddylai'r ferch bwyso ar y bachgen.

Dewch i Ddawnsio Gwerin

tinint

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

CYMRAEG Byd Addysg In Education